## Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

**Ysbyty:** Ysbyty Cwm Rhondda

**Ward/ Adran:** B2

**Dyddiad yr arolygiad:** 23 a 24 Gorffennaf 2014

| Para graff | Canfyddiad | Cam gofynnol | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hanfodion Gofal** | | | | | |
| 1. | Nid oedd gan gleifion glustffonau unigol i'w galluogi i wrando ar y radio a'r teledu. Canlyniad hyn oedd bod cleifion a oedd eisiau gorffwys yn cael eu haflonyddu. | ***Cynghorir y dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried darparu clustffonau i gleifion unigol i'w galluogi i wrando ar y radio neu'r teledu heb darfu ar eraill sydd am orffwys.*** | Atal a Rheoli Heintiau - argymell defnyddio clustffonau un-tro. Gofynnir i gleifion ddefnyddio'u clustffonau eu hunain tra eu bod yn yr ysbyty a chaiff cyflenwad bach ohonynt ei brynu.<br><br>Yn anffodus ni fyddai'r setiau teledu yn y cilfachau unigol yn cydweddu â'r clustffonau.Caiff cleifion sydd am wylio'r teledu ac sy'n gallu cael eu symud eu hannog i ddefnyddio'r ystafell ddydd neu i eistedd mewn cilfach lle mae cleifion eraill yn gwylio'r teledu, i ganiatáu i rai cilfachau gael eu dynodi'n rhai tawel. | Prif Nyrs y Ward/ Uwch Nyrs | 30/09/2014 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2. | Dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion yn yr arolygiad hwn nad oedd tîm y ward yn defnyddio offerynnau asesu poen i gofnodi lefelau poen cyn, neu ar ôl, rhoi meddyginiaeth lleddfu poen a ragnodwyd. Nid oeddem, felly, yn gallu dod o hyd i gofnodion ysgrifenedig i gadarnhau bod meddyginiaeth o'r fath wedi bod yn effeithiol, neu ei bod yn dal i fod yn angenrheidiol. | ***Cynghorir y Bwrdd Iechyd bod angen sicrhau bod lefelau anghysur, poen neu drallod cleifion yn cael eu hasesu gan ddefnyddio offeryn asesu a gydnabyddir. Mae hyn er mwyn darparu triniaeth/meddyginiaeth effeithiol a phriodol. Yna gellid cofnodi canlyniadau penderfyniadau fel bod dilyniant yng ngofal y claf.*** | Sicrhau bod offeryn cydnabyddedig yn cael ei ddefnyddio i asesu poen unigolyn.<br>Cydweithio â'r Nyrs Poen ynghylch yr offeryn asesu poen.<br><br>Treialu offeryn poen Abbey am 1 mis – offeryn arbenigol ar gyfer cleifion sydd â galluoedd gwybyddol. Os yw'r treial yn llwyddiannus caiff ei ledu i holl wardiau'r ysbytai cymunedol. | Prif Nyrs y Ward/ Uwch Nyrs | 20/09/2014<br><br>6/10/14 |
| 3. | Yn dilyn trafodaethau â staff y ward nodwyd nad yw ystafell ddydd agored/ystafell fwyta'r ward yn cael ei defnyddio'n aml iawn gan gleifion. Canfuom hefyd fod gwely sbâr a darnau eraill o gyfarpar ar wasgar yn y man hwn a fyddai'n gwneud i bobl deimlo nad oes croeso iddynt yno. | ***Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried y trefniadau presennol o ran defnyddio'r ystafell ddydd cynllun agored/ystafell fwyta gan nad yw'r cleifion yn cael cyfle i gymdeithasu â chleifion eraill, nac yn*** | Sicrhau bod cleifion yn cael y cyfle i fwyta eu prydau yn yr ystafell fwyta/ystafell ddydd.<br>Edrych ar opsiynau eraill er mwyn galluogi cleifion i gymdeithasu â chleifion eraill yn ystod amser bwyd. Ar hyn o bryd yn treialu rhoi'r cyfle i gleifion fwyta wrth y bwrdd yn y gilfach iddynt gael | Prif Nyrs y Ward/ Uwch Nyrs | Yn parhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Darganfuwyd o ganlyniad i drafodaethau â chleifion nad oeddent yn cael cynnig cyfle i fwyta eu prydau yn yr ystafell fwyta yn rheolaidd; yn hytrach roeddent yn cael bwyd wrth ymyl eu gwely bob amser. | ***cael eu hannog i symud amser bwyd. Byddai symud o'r gwely hefyd yn helpu i ryddhau gwasgedd ac i gynnal annibyniaeth y claf cyn iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty.*** | cymdeithasu.<br><br>Caiff cleifion eu hannog i newid eu safle ac i symud pan fo’n bosibl. Caiff mannau briwiau pwyso eu monitro'n rheolaidd.<br><br>Yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ar y ward ar hyn o bryd.<br><br>Mae staff ar y ward yn parhau i drefnu digwyddiadau gwahanol i annog ac i alluogi cleifion i gymdeithasu, er enghraifft, parti stryd diweddar i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. | | |
| 4. | Dywedodd y cleifion wrthym nad oeddent yn cael cynnig bowlen o ddŵr neu glytiau diheintio cyn bwyta'u bwyd. Roedd rhai pobl yn gallu mynd i'r sinc yn eu ward heb gymorth, ond roedd rhai eraill nad oeddent yn gallu gwneud hyn. | ***Cynghorir y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael cynnig cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta'u prydau yn unol â'u dymuniadau ac er mwyn cydymffurfio â'r Hanfodion Gofal.*** | Sicrhau bod yr holl gleifion yn cael ycyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta'u prydau. Bod y nyrs sydd yng ngofal y troli bwyd yn cynnig 'wet wipes'/bowlen o ddŵr i bob claf. | Prif Nyrs y Ward/ Uwch Nyrs | Wedi'i gyflawni |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5. | Canfuom nad oedd jygiau dŵr y cleifion yn cael eu hail-lenwi mwy nag unwaith y dydd. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd amgylchedd y ward yn gynnes iawn o ganlyniad i'r tywydd ar y pryd, ac felly nid oedd dŵr y jygiau yn bleserus iawn i'r cleifion. | ***Cynghorir y dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau eu bod yn darparu gofal a chymorth yn unol â Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan.*** [1] | Cydweithio â'r tîm arlwyo i sicrhau bod jygiau dŵr y cleifion yn cael eu hail-lenwi'n rheolaidd.<br>Bydd staff nyrsio hefyd yn sicrhau bod dŵr ffres ar gael i gleifion. | Gwaith cadw tŷ | 30/09/2014 |
| | | | | | |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | | | | | |
| 6. | Gwnaeth trafodaethau â dau aelod o dîm y ward dynnu sylw at eu hansicrwydd a'u diffyg dealltwriaeth o ran y symbolau a osodir ar yr hysbysfyrddau yn y ward er mwyn nodi agweddau allweddol ar ofal cleifion (h.y. byddai symbol penodol yn cael ei osod wrth lythrennau cyntaf ei enw pe bai risg maethol mewn perthynas â | **Cynghorir y dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff hyfforddiant perthnasol ei gynnig a'i ddarparu i staff er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus ac yn gymwys i ddiwallu anghenion iechyd, diogelwch a lles** | Cydweithio â'r nyrs Trawsnewid iechyd ynghylch hyfforddiant pellach. Y staff i ymgyfarwyddo â'r symbolau.<br>Allwedd i esbonio pob symbol ar gael ar gyfer y staff i gyd.<br>Mae'r Nyrs Staff wedi cael y cyfrifoldeb o archwilio statws y cleifion ar yr hysbysfwrdd statws. | Prif Nyrs y Ward/ Uwch Nyrs | 30/09/2014 |

[1] Dolen i safonau maeth Cymru Gyfan. http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/nutrition/?lang=cy

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | chlaf, neu pe bai wedi bod yn colli pwysau). | **yr holl gleifion bob amser. Mae hyn yn gysylltiedig yn benodol â diogelu, gofal dementia**, **deliriwm a risgiau maeth oherwydd natur yr anghenion sy'n gysylltiedig â phobl hŷn, bregus a letyir ar y ward yn barhaus.** | | | |
| 7. | Nodwyd mai diben y ward oedd darparu gwasanaeth adsefydlu gweithredol er mwyn helpu cleifion i baratoi i gael eu rhyddhau i fynd adref. Fodd bynnag, canfuom nad oedd meini prawf clir o ran derbyn cleifion. O ganlyniad, roedd anghenion cleifion yn amrywio o'r rhai oedd angen gofal a chymorth gyda rhywfaint o adsefydlu, i ofalu am bobl â dementia a chyflyrau diwedd oes. Gwnaeth trafodaethau â thîm y ward a'r uwch nyrs dynnu sylw at yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu wrth ffurfio rhaglen hyfforddiant i'r ward | | Ar hyn o bryd yn edrych ar lwybrau gwahanol ar gyfer cleifion sydd ag anghenion gwahanol. Cwblhau'r cynllun llwybrau drwy gyflwyno'r gwelyau yn raddol i'r adrannau.<br><br>Sicrhau bod staff wedi'u henwebu i gael hyfforddiant yn y pynciau priodol. Cynllun – edrych ar yr | Prif Nyrs y Ward/ Uwch Nyrs<br><br>Prif Nyrs y Ward/ Uwch | 31/10/2014<br><br>31/10/2014 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8. | a fyddai'n mynd i'r afael ag anghenion cymhleth a chyfnewidiol y cleifion sy'n derbyn gofal.<br><br>Gwnaeth trafodaethau â'r staff nyrsio ddangos nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol am faetheg, iechyd a diogelwch, diogelu, gofal dementia neu ddeliriwm. | | opsiwn o gynnwys y pynciau priodol mewn hyfforddiant amlddisgyblaethol gan ddefnyddio arbenigwyr o fewn y tîm. | Nyrs | |
| **Ansawdd a Diogelwch** | | | | | |
| 9.<br><br>10. | Gwelwyd rhai staff yn gwisgo bathodynnau adnabod, ond nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn eu gwisgo. Wrth drafod â'r person â gofal cawsom wybod am y trafodaethau sydd ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd ynghylch brodio amwisgoedd y staff â'u henwau a'u swyddogaeth - er mwyn ei wneud yn haws i gleifion adnabod staff ar y ward. Yn y cyfamser, fodd bynnag, gallai'r ffaith nad yw'r mesur diogelwch hwn ar waith beri anawsterau i rai cleifion. | ***Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn adnabod gweladwy at ddibenion diogelwch. Dylid herio staff os nad yw'r bathodyn adnabod yn weladwy.***<br><br>***Cynghorir y dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau y*** | Mae gan yr holl staff fathodynnau adnabod ac maent yn monitro bod eraill yn glynu at y gofyniad i wisgo bathodyn. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd eraill o ddangos pwy yw pwy. | Rheolwr y Ward<br><br>Bwrdd Iechyd | 31/10/14 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r cleifion yn cael asesiad rheolaidd o'u hanghenion iechyd meddwl ochr yn ochr â'u hanghenion iechyd cyffredinol wedi iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty. | ***caiff anghenion iechyd meddwl ac iechyd cyffredinol cleifion eu hasesu wrth iddynt gael eu derbyn. Mae hyn er mwyn sicrhau bod staff yn gallu cynllunio, monitro a gwerthuso gofal cleifion mewn ffordd fwy effeithiol; yn unol â'r Hanfodion Gofal.*** | Sicrhau bod cynllun gweithredu nyrsio yn cael ei gynnwys yn y cynllun gofal, er mwyn ystyried iechyd meddwl a bodlondeb y claf wedi iddo gael ei dderbyn. Adolygu pob cynllun gofal yn wythnosol.<br>Treialu Cynllun Gweithredu Nyrsio wedi'i Ragnodi, a gynlluniwyd yn benodol i fonitro iechyd meddwl a lles. | Prif Nyrs y Ward/ Uwch Nyrs | 31/10/2014 |
| **Profiad y Claf** | | | | | |
| | Ni chanfuom unrhyw fater y dylid ei wella mewn perthynas â'r agwedd hon ar ofal yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |